OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 735

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 4

### Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019

**57.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn lle'r diffiniad o "llwyth a reolir" rhodder—

"ystyr "llwyth a reolir" ("*controlled consignment*") yw llwyth sy'n cynnwys, neu y mae arolygydd o'r farn ei fod yn cynnwys—

(a) rhisgl wedi ei wahanu o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 5 i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ymadael â'r UE) 2019;

(b) pren o ddisgrifiad a bennir yn yr Atodlen honno, ac eithrio deunydd pecynnu pren a ddefnyddir mewn gwirionedd wrth gludo gwrthrychau o bob math;";

(b) hepgorer y diffiniad o "y Gyfarwyddeb";

(c) yn lle'r diffiniad o "gwiriad dogfennol" rhodder—

"ystyr "gwiriad dogfennol" ("*documentary check*") yw archwiliad at ddibenion erthygl 12(B1)(c) neu 12A(2)(a) o'r Gorchymyn;";

(d) yn lle'r diffiniad o "gwiriad adnabod" rhodder—

"ystyr "gwiriad adnabod" ("*identity check*") yw archwiliad at ddibenion erthygl 12(B1)(b) neu 12A(2)(b) o'r Gorchymyn;";

(e) yn lle'r diffiniad o "gwiriad iechyd planhigion" rhodder—

"ystyr "gwiriad iechyd planhigion" ("*plant health check*") yw archwiliad at ddibenion erthygl 12(B1)(a) o'r Gorchymyn;";

(f) yn y diffiniad o "awdurdodiad pasbort planhigion", ar ôl "ddyroddi pasbortau planhigion" mewnosoder "y DU".

(**1**) O.S.2019/497 (Cy.114)